

Hysbysiad Preifatrwydd — Deiliaid Trwydded Maes Parcio Dew Street

Sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio

1. Ar ôl i chi gyflwyno eich cais am drwydded i ateb, bydd y data personol a ddarparwyd gennych yn cael ei ddefnyddio at y dibenion canlynol yn unol â'n hamodau defnydd:
 - Er mwyn asesu a ydych yn gymwys i gael trwydded
 - Er mwyn gofyn am ddogfennau i brofi eich bod yn byw yn eich cyfeiriad a'ch bod yn berchen ar y cerbyd
 - Er mwyn cysylltu â chi i roi manylion talu
 - Er mwyn rhoi rhif eich trwydded barcio i chi.

Contract yw'r sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu hwn. Rhaid i'ch data personol gael ei brosesu er mwyn i ateb roi trwydded barcio, ac er mwyn i ateb a/neu'r contractwr a gyfarwyddwyd ganddo fonitro bod pobl yn cydymffurfio â'r rheolau parcio.

2. Mae'r data personol a gedwir yn cynnwys:
 - Manylion y cerbyd, gan gynnwys math, model a rhif cofrestru'r cerbyd
 - Eich enw
 - Eich cyfeiriad
 - Eich rhif(au) ffôn
 - Eich cyfeiriad e-bost.
3. Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â'r asiant rheoli parcio a gyfarwyddwyd gennym, sef Parking Eye Limited (rhif y cwmni: 05134454), er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r drwydded barcio a bennwyd ar eich cyfer, fel yr eglurir yn ein hamodau defnydd. Cliciwch ar y ddolen gyswllt isod i weld manylion polisi preifatrwydd Parking Eye Limited: <https://www.parkingeye.co.uk/privacy-policy/>
4. Yr unig adeg arall y byddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol heb eich caniatâd yw:
 - Os oes yn rhaid i ni wneud hynny'n ôl y gyfraith, e.e. er mwyn atal twyll, trosedd ac anhrefn.
5. Ni fydd ateb yn trosglwyddo'r data personol a ddarparwyd gennych i fannau sydd y tu allan i'r DU neu'r UE oni chaiff hynny ei ganiatáu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.
6. Mae blwyddyn y drwydded yn dechrau ar 1 Ionawr ac yn gorffen ar 31 Rhagfyr (mae'n bosibl y bydd trwyddedau'n cael eu rhoi ar ôl 1 Ionawr). Bydd data personol deiliaid trwydded yn cael ei ddinistrio ar ôl dwy flynedd. Bydd y cyfnod cadw o ddwy flynedd yn dechrau ar y dyddiad y caiff y drwydded ei phrosesu.

7. Os byddwn yn gwneud newid mawr i'r hysbysiad preifatrwydd hwn, byddwn yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi am y newid.

Eich hawliau

8. Dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Y DU) a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych sawl hawl sy'n ymwneud â'ch data personol. Mae gennych yr hawl i ofyn i ni am fynediad i'ch data personol a'r hawl i ofyn i ni gywiro neu ddileu eich data personol, yr hawl i gyfyngu ar y prosesu a wneir, yr hawl i wrthwynebu unrhyw brosesu ac, mewn rhai amgylchiadau, yr hawl i gludadwyedd data.
9. Oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, bydd unrhyw fynediad i ddata gan y testun ac unrhyw geisiadau am fynediad i ddata gan y testun yn cael eu darparu'n electronig. Rydym yn cadw'r hawl i godi ffi weinyddu am ddarparu copïau caled. Gofynnir am ddogfen adnabod hefyd fel mesur diogelwch er mwyn cadarnhau mai chi ydych chi.
10. Os ydych wedi rhoi caniatâd i ni brosesu eich data, mae gennych yr hawl (mewn rhai amgylchiadau) i dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl unrhyw bryd heb fod hynny'n effeithio ar gyfreithlondeb y prosesu a ddigwyddodd cyn i chi dynnu eich caniatâd yn ôl.
11. Mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn credu nad ydym wedi cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ynghylch diogelu data yng nghyswllt eich data personol.

Pwy yw'r rheolydd data a'r Swyddog Diogelu Data a beth yw eu manylion cyswllt

12. At ddibenion y ddeddfwriaeth ynghylch diogelu data, ateb Group Limited yw'r rheolydd a'r prosesydd data.
13. Os oes gennych unrhyw bryderon am y modd y mae eich data'n cael ei brosesu, gallwch gysylltu â:

Ceri Morgan
Tŷ Meyler
St Thomas' Green
Hwlfordd
SA61 1QP

01437 763 688
mydata@atebgroup.co.uk
www.atebgroup.co.uk

Adolygwyd: Chwefror 2025